

Mantell Gwynedd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

12. Newid hinsawdd

12.7 Newid hinsawdd a thai



Mae'r sector domestig yn cyfrif am 28% o'r galw am ynni yn y DU (Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd [DECC], 2009). Mae'n gyfrifol am oddeutu 30% o allyriadau Prydain (Adran yr Amgylchedd, Ffermio a Materion Gwledig 2001; DTI, 2003; Power, 2008). Daw dros hanner yr allyriadau carbon domestig o gynhesu gofod (53% yn 2005), a daw 20% o gynhesu dŵr. Cynhyrchir y gweddill gan offer yn y cartref (16%), goleuo (6%) a choginio (5%) (Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, 2007).

Mae ein cartrefi'n gyfrifol am ychwanegu'n fawr at broblem newid yn yr hinsawdd; rhaid lleihau allyriadau o'n cartrefi er mwyn lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Prif argymhellion y New Economics Foundation ar gyfer tai yw:

- Buddsoddi'n genedlaethol i ôl-osod dyluniad di-garbon yn y tai cymdeithasol presennol.
- Sicrhau bod tai cymdeithasol yn cael eu hadeiladu i safon uchel gydag effeithiau newid yn yr hinsawdd yn cael sylw gofalus.
- Cynllunio a gweithredu datblygiadau sy'n prawfesur newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys manau agored a all helpu i oeri adeiladau mewn tywydd poeth neu ddal dŵr llifogydd; gallai hyn drawsnewid cymunedau lleol drwy ddarparu cyfleusterau lleol, creu gofod ar gyfer cerdded a seiclo, a chreu manau gwyrdd mewn ardaloedd trefol.

<http://neweconomics.org/publications/zero-carbon-britain-2030>

Ôl-osod

Byddai buddsoddi mewn ôl-osod y stoc dai bresennol i gyrraedd safon uchel sy'n gwneud defnydd effeithlon o ynni'n golygu strategaeth lle byddai pawb ar eu hennill ac a fyddai'n helpu i leihau allyriadau, yn codi llawer o bobl o dlodi tanwydd gyda'r posibilrwydd o greu swyddi a chyfleoedd hyfforddi.

Arbed – Y Rhaglen Buddsoddi Strategol mewn Perfformiad Ynni

Sefydlwyd rhaglen Arbed gan Lywodraeth Cymru yn 2009. Ei nod yw dod â buddiannau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd i Gymru a chydlynu buddsoddiad i wella perfformiad ynni cartrefi Cymru. Cam un Arbed oedd y rhaglen fwyaf o'i bath yn y DU, gyda buddsoddiad o £30 miliwn. Bu Llywodraeth Cymru yn gweithio â darparwyr tai cymdeithasol i wneud cymunedau mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru'n fwy effeithlon o ran ynni.

Gwnaethpwyd hynny drwy ôl-osod mesurau mewn cartrefi gan gynnwys deunydd insiwleiddio soled mewn waliau, panelau solar a phympiau gwres. Llwyddodd cynlluniau Cam Un i ddenu £31m yn ychwanegol: buddsoddwyd hyd at £20m gan ddarparwyr tai cymdeithasol ac awdurdodau lleol. Manteisiwyd ar arbedion cost ac arbedion maint a gynigiwyd gan gynlluniau Arbed i alinio/dwyn eu cyllidebau cynnal a chadw ymlaen; adnewyddu tai, a chymorth i gymdogaethau. Mae'r buddsoddiad hwn wedi galluogi cartrefi i gael nifer o fesurau effeithlonrwydd ynni gan gynnwys:

- uwchraddio boeleri a gosod rhai newydd;
- uwchraddio ffenestri;
- estyn toeau;
- gwaith strwythurol; a
- chynghor ar arbed ynni.

Mae Cam dau Arbed bellach ar waith. Mae'r ail gam sy'n werth £45m yn cael cymorth gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a bydd Llywodraeth Cymru yn darparu arian cyfatebol. Bydd yn parhau i gyflawni yn erbyn amcanion craidd Arbed.

Mae partneriaid Arbed yn cynnwys:

- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA);
- Cartrefi Cymunedol Cymru (CHC);
- Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni (EST); a'r
- Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE).

Cewch ragor o wybodaeth yn

<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/energy/efficiency/arbed>

Y Fargen Werdd

Mae Llywodraeth y DU yn creu fframwaith i alluogi cwmnïau preifat i gynnig gwelliannau i wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi, mannau gwyrdd a busnesau heb iddynt dalu costau ymlaen llaw, ac wedyn adennill costau drwy randaliadau ar y bil ynni. Defnyddir £200m fel cymhelliad i'r cyhoedd i fanteisio ar y Fargen Werdd pan fydd ar gael i berchnogion tai ym mis Hydref 2012. Am ragor o wybodaeth am y Fargen Werdd, ewch i:

www.decc.gov.uk/assets/decc/legislation/energybill/1010-green-deal-summary-proposals.pdf

www.green-deal-guide.co.uk

Mae cyfleoedd ar gael i'r trydydd sector, i gynyddu effaith y Fargen Werdd. Gallai'r trydydd sector weithio i reoli'r gwaith 'ôl-osod' mewn cartrefi i sicrhau eu bod yn defnyddio ynni'n fwy effeithlon drwy gynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar y Fargen Werdd, drwy weithredu fel eiriolwyr y gall pobl ymddiried ynddynt mewn ffordd na all cwmnïau ynni ei obeithio. Gallai grwpiau cymunedol gael y fargen orau i aelwydydd a gwneud y broses o newid mor rhwydd â phosibl, gan gynnig cymorth gyda materion ymarferol fel clirio taflodydd cyn dechrau ar y gwaith insiwleiddio. Gallai hyn fod yn arbennig o werthfawr yn achos pobl agored i niwed neu gymunedau anodd eu cyrraedd.

Datblygiadau tai newydd

Dylai datblygiadau newydd fod yn seiliedig ar gerdded, seiclo a thrafnidiaeth gyhoeddus i baratoi'r ffordd ar gyfer dyfodol carbon isel.

Bydd systemau draenio trefol cynaliadwy a mannau gwyrdd i wrthweithio eithafion gwres yn bwysig i helpu grwpiau agored i niwed i ymdopi ag effeithiau hinsawdd sy'n newid yn y dyfodol.

Llifogydd

Mae pobl sy'n byw mewn tlodi mewn perygl gan eu bod yn byw, fel arfer, mewn tai o safon is; nid ydynt mor debygol o fod ag yswiriant a hwy sydd â lleiaf o adnoddau i ymdopi ag effeithiau hinsawdd sy'n newid. Mae ansicrwydd ynghylch yr hinsawdd yn y dyfodol yn llawer mwy o broblem i aelwydydd ar incwm isel, gan eu bod yn llawer mwy bregus, yn llai tebygol o fod wedi'u hyswirio a chyda llai o adnoddau i droi atynt mewn argyfwng.

Mae cymunedau sy'n byw mewn tlodi hefyd yn fwy tebygol o fod mewn mannau sy'n fwy agored i lifogydd. Mae elfen arfordirol gref mewn daearyddiaeth gymdeithasol- ofodol pobl agored i niwed, sy'n amlwg iawn yng Nghymru, lle mae dros hanner 10 y cant y cymdogaethau mwyaf agored i niwed yn gymdeithasol o fewn 1km i'r arfordir.

Gwybodaeth Bellach

Zero Carbon Britain 2030

http://neweconomics.org/sites/neweconomics.org/files/Zero_Carbon_Britain_2030.pdf

Rhanbarthau Carbon Isel y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy

www.sd-commission.org.uk/data/files/publications/SDC_LowCarbonRegions_report_web.pdf

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth yn y daflen hon wedi'i bwriadu fel arweiniad yn unig. Ni ddylid ei defnyddio ar draul cyngor proffesiynol ac ni allwn gymryd unrhyw gyfrifoldeb am golledion a all ddeillio o ganlyniad i unrhyw unigolyn sy'n gweithredu neu'n peidio gweithredu arni.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Mantell Gwynedd

23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AB

Elusen Gofrestredig: 1068851

Ffôn: 01286 672626

ymholiadau@mantellgwynedd.com

Ffacs: 01286 678430

www.mantellgwynedd.com

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru: 16/03/2012



Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk